Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad Blynyddol 2024-25

Tachwedd 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad Blynyddol 2024-25

Tachwedd 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ....... 7**

**2. Gweithgarwch deddfwriaethol ....... 9**

Craffu ar is-ddeddfwriaeth ....... 9

Cefndir ....... 9

Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ....... 9

Gwallau mewn offerynnau statudol a'n gwaith monitro parhaus o offerynnau statudol a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ....... 10

Craffu ar Filiau ....... 12

Cefndir ....... 12

Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ....... 12

Adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau ....... 14

Biliau a gyflwynwyd i Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig (Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol) ....... 14

Cefndir ....... 14

Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ....... 15

Y diffyg democrataidd parhaus ....... 16

Cydsyniad Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth ....... 19

Cefndir ....... 19

Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ....... 19

Hygyrchedd a chymhlethdod cyfraith Cymru ....... 19

Cefndir ....... 19

Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ....... 20

Casgliadau ....... 22

**3. Materion cyfansoddiadol ....... 29**

Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol ..... 29

Cefndir ..... 29

Hysbysiad o gyfranogiad Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel weinidogol ..... 29

Crynodebau ysgrifenedig yn dilyn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol ..... 30

Hysbysiad o gydsyniad gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru ..... 31

Cysylltiadau rhynglywodraethol ..... 31

Fframweithiau Cyffredin ..... 32

Gweithredu Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ..... 34

Adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ..... 34

Swyddfa'r Farchnad Fewnol ..... 35

Gweithio rhyngseneddol ..... 36

Y Fforwm Rhyngseneddol ..... 36

Rhannu gwybodaeth â phwyllgorau seneddol eraill y DU a rhoi tystiolaeth iddynt ..... 36

Casgliadau ..... 37

**4. Materion allanol ..... 38**

Rhwymedigaethau rhyngwladol ..... 38

Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ..... 38

Adolygiad o Weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ..... 38

Cytundebau rhyngwladol ..... 38

Casgliadau ..... 39

**5. Craffu ar faterion yn ymwneud a chyfiawnder ..... 41**

Arweinyddiaeth ac atebolrwydd o ran materion cyfiawnder ..... 41

Cyllideb Ddrafft 2025-26 ..... 42

Cysylltiadau rhynglywodraethol ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder ......42

Tribiwnlysoedd Cymru ......43

CEF Y Parc ......44

Casgliadau ...... 45

**Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ...... 47**

# 1. Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gylch gwaith eang sy'n cwmpasu ystod eang o feysydd. Bwriad yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor o dymor yr hydref 2024 hyd ddiwedd toriad haf 2025.

**1.** Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021[1] i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21 a Rheol Sefydlog 26C, ac i ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â'r cymhwysedd hwnnw, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad (gan gynnwys dyfodol cyfansoddiadol Cymru), cyfiawnder, a materion allanol, gan gynnwys newidiadau i'r setliad datganoli (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), a chysylltiadau rhynglywodraethol.

**2.** Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod ein gwaith yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn:

- gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth yn unol â Rheolau Sefydlog 21.2, 21.3 a 21.7(i);
- gwaith craffu ar Filiau o dan Reol Sefydlog 26 o fewn cylch gwaith polisi'r Pwyllgor;
- gwaith craffu ar bob Bil arall a gyflwynir i'r Senedd ond gan ganolbwyntio ar faterion penodol nad ydynt yn ymwneud â pholisi;
- gwaith craffu ar Filiau cydgrynhoi o dan Reol Sefydlog 26C;
- gwaith craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol yn unol â Rheol Sefydlog 29 a memoranda cydsyniad offeryn statudol yn unol â Rheol Sefydlog 30A;

[1] Yn dilyn penderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mehefin 2021, daeth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro yn Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

- gwaith craffu ar Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan Reolau Sefydlog 25, 27.6A neu 27.7B;
- ystyried effaith Biliau a gyflwynwyd i Senedd y DU ar ddatganoli a deddfu yn y Senedd;
- gwaith craffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol;
- gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol;
- gwaith craffu trosolwg ar fframweithiau cyffredin;
- gwaith craffu ar lywodraethiant a gweithredu cytundebau rhwng y DU a’r UE, megis y Cytundeb Masnach a Chydweithredu;
- cynrychioli’r Senedd ar y Fforwm Rhyngseneddol ac fel sylwedydd ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu;
- gwaith craffu ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder sydd o fewn ein cylch gwaith, gan gynnwys craffu ar y gyllideb;
- cynnal ymchwiliadau polisi yn unol â chylch gwaith y Pwyllgor y cytunwyd arno gan y cyfarfod llawn;
- ymgymryd â gwaith rhyngseneddol i rannu gwybodaeth ac arbenigedd gyda seneddau eraill yn y DU.

**3.** Mae llawer o'r gwaith craffu hwn yn amodol ar amserlenni a therfynau amser a bennir naill ai gan Reolau Sefydlog y Senedd neu’r Pwyllgor Busnes. O ganlyniad, mae ein gallu i fod yn rhagweithiol o fewn ein cylch gwaith eang yn gyfyngedig, ac mae hyblygrwydd i weithredu’n gyflym yn aml yn dibynnu ar ein llwyth gwaith deddfwriaethol. Felly, ar ddechrau’r Chweched Senedd, fe wnaethom benderfynu ystyried (yn breifat) bapurau a oedd yn monitro datblygiadau ac yn darparu diweddariadau i sicrhau y gallem weithredu ar faterion allweddol sy’n codi o fewn y cylch gwaith eang hwn yn ôl yr angen. Cyhoeddir y papurau hyn fel adroddiadau monitro ac yn ystod 2024/25, cyhoeddwyd tri adroddiad o'r fath.

**4.** Mae’r penodau a ganlyn yn amlygu’r gwaith yr ydym wedi ymgymryd ag ef ym mhedwaredd flwyddyn y Chweched Senedd.

# 2. Gweithgarwch deddfwriaethol

## Craffu ar is-ddeddfwriaeth

### Cefndir

**5.** Yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio pwerau a roddwyd iddynt mewn deddfau galluogi megis Deddfau'r Senedd, Mesurau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y DU. Cyfeirir at is-ddeddfwriaeth fel deddfwriaeth ddirprwyedig hefyd, oherwydd bod y Ddeddf alluogi yn dirprwyo'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth. Cyfeirir at is-ddeddfwriaeth yn aml fel deddfwriaeth ddirprwyedig

**6.** Mae'r rhan fwyaf o is-ddeddfwriaeth Cymru yn cael ei gosod gerbron y Senedd a hynny ar ffurf rheoliadau neu orchmynion (mathau o offerynnau statudol).

**7.** Ein rôl ni yw ystyried is-ddeddfwriaeth o dan Reolau Sefydlog 21.2, 21.3 a 21.7(i) a chyflwyno adroddiad i'r Senedd arni. Rydym yn ystyried offerynnau statudol yn erbyn y meini prawf a nodir yn:

- Rheol Sefydlog 21.2 – rhaid inni ystyried y materion hyn a chyflwyno adroddiad arnynt. Gelwir materion a adroddir o dan Reol Sefydlog 21.2 yn bwyntiau adrodd technegol sy'n ymdrin â materion megis a oes gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud yr is-ddeddfwriaeth dan sylw, eglurder y gwaith drafftio ac a yw'n ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol.

- Rheol Sefydlog 21.3 – gallwn ystyried y materion hyn a chyflwyno adroddiad arnynt. Gelwir materion yr adroddir arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 yn bwyntiau adrodd o ran rhinweddau sy'n ymdrin â materion megis pwyntiau o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu sy'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

### Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

**8.** Rhwng mis Medi 2024 a mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom adrodd ar 110 o eitemau (SL(6)507 - SL(6)632) o is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys 59 a oedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol a 43 a oedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft).

**9.** Cafodd pedwar o'r eitemau o is-ddeddfwriaeth a ystyriwyd eu gosod gerbron y Senedd gan dorri’r rheol 21 diwrnod, sy'n golygu bod y ddeddfwriaeth wedi dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl iddi gael ei gosod. Rhoddir gwybod i'r Llywydd a’r Pwyllgor am unrhyw achosion o'r fath yn unol ag adran 11A(4) o *Ddeddf Offerynnau Statudol 1946*. Gweler, er enghraifft, SL(6)627 - Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) (Diwygio) 2025

**Gwallau mewn offerynnau statudol a'n gwaith monitro parhaus o offerynnau statudol a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor**

**10.** Yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn, rydym wedi cyflwyno adroddiad ar 88 o bwyntiau technegol o dan Reol Sefydlog 21.2(vi) lle’r oeddem o’r farn ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offerynnau statudol yn ddiffygiol neu nad oedd yn bodloni gofynion statudol, a 62 o bwyntiau technegol o dan Reol Sefydlog 21.2(vii) lle mae'n ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg.

**11.** Rydym wedi parhau i edrych yn fanwl ar brosesau sicrhau ansawdd Llywodraeth Cymru cyn i is-ddeddfwriaeth gael ei gosod gerbron y Senedd, ac wedi parhau i fynegi pryderon ynghylch y nifer fawr o bwyntiau adrodd ar gyfer offerynnau statudol, yn enwedig pwyntiau sy'n nodi anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg.

**12.** Yn adroddiad blynyddol y llynedd, fe wnaethom nodi nad ydym wedi cael ein hargyhoeddi bod rhai cywiriadau i wallau mewn offerynnau statudol (a nodwyd gennym) wedi’u gwneud, neu wedi’u cyfleu’n glir inni gan Lywodraeth Cymru. Yn sgil y pryderon hyn, ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom gytuno y byddem yn monitro pryd a sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig offerynnau statudol newydd i Gymru, sy’n cynnwys darpariaethau i gywiro gwallau mewn offerynnau statudol a nodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor yn ei adroddiadau i’r Senedd. Fe wnaethom gytuno hefyd y byddem yn diweddaru ein dadansoddiad yn rheolaidd ac yn ystyried yn rheolaidd pa gamau, os o gwbl, y gallai fod angen eu cymryd.

**13.** Gwnaed ein penderfyniad, yn rhannol, oherwydd cyfaddefiad gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni, Julie James AS (y Cwnsler Cyffredinol), nad oes gan Lywodraeth Cymru gofnodion digon da o pryd y mae’r Pwyllgor wedi gwneud argymhelliad bod angen cywiro gwall a bod Llywodraeth Cymru wedi’i dderbyn.

**14.** Yn ein cyfarfod ar 13 Ionawr 2025, fe wnaethom drafod yr offerynnau statudol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2024 lle y mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn cyflwyno offeryn diwygio i gywiro gwallau y mae’r Pwyllgor

wedi'u nodi. Ysgrifennodd y Pwyllgor wedyn at Weinidogion perthnasol Cymru mewn perthynas ag offerynnau pan ei bod yn ymddangos bod offerynnau diwygio yn hwyr. Fe wnaethom hefyd rannu ein dadansoddiad â'r Cwnsler Cyffredinol ar 16 Ionawr er gwybodaeth.

**15.** Ar 28 Ebrill 2025, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol atom a'n hysbysu bod gwaith ar y gweill yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r gyfres gyntaf o offerynnau statudol 'omnibws' a fyddai'n gwneud gwelliannau i amrywiol offerynnau cynharach, ac y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd cyn gwyliau'r haf. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

> *"Bydd y ddau offeryn yn bodloni nifer o'r ymrwymiadau yn y tabl sydd wedi'i atodi i'ch llythyr dyddiedig 16 Ionawr, yn ogystal â diwygio rhai mân faterion eraill y byddai'n briodol ymdrin â nhw ar yr un pryd. Mae rhai o'r offerynnau a restrir yn eich atodiad eisoes wedi'u datrys neu byddant yn cael eu trin gan offerynnau diwygio eraill."*

**16.** Wrth nodi ein huchelgais i ddiweddaru ein dadansoddiad o ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn rheolaidd, roedd llythyr y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 28 Ebrill yn cynnwys atodiad a roddodd ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ar y materion a godwyd gennym yn ein dadansoddiad ym mis Ionawr gyda'r nod o'n cynorthwyo gyda'r gwaith hwnnw.

**17.** Mae'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r dadansoddiad monitro parhaus hwn, gan gynnwys gohebiaeth â Gweinidogion Cymru, wedi'i chyhoeddi mewn lleoliad canolog ar ein gwefan.

### Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

**18.** Ar 9 Mai 2025, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, Jayne Bryant AS, y Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 gerbron y Senedd. Gelwir y Gorchymyn hwn yn gyffredin yn 'Orchymyn Ymddygiad' ac mae'n ddarn arwyddocaol o is-ddeddfwriaeth.

**19.** Fe wnaethom osod ein hadroddiad ar y Gorchymyn Ymddygiad drafft ar 2 Mehefin 2025. Roedd yn cynnwys 42 o bwyntiau adrodd. Wedi hynny, fe wnaethom gyfnewid gohebiaeth â'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Cwnsler Cyffredinol. Mae'r holl ohebiaeth ar gael ar y dudalen we ar gyfer y Gorchymyn Ymddygiad drafft.

**20.** Pleidleisiodd y Senedd i gymeradwyo'r Gorchymyn Ymddygiad drafft yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf 2025.

## Craffu ar Filiau

### Cefndir

**21.** Fel rhan o'n cylch gwaith cyffredinol, rydym yn ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth. Mae ein gwaith craffu safonol ar Filiau, yn unol â'n cylch gwaith, yn canolbwyntio ar nifer o faterion penodol:

- materion yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol, gan gynnwys cydnawsedd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- yr angen am y ddeddfwriaeth;
- y cydbwysedd rhwng y darpariaethau ar wyneb y Bil a'r hyn a ddirprwyir i Weinidogion Cymru ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth, a'r weithdrefn sydd ynghlwm wrth bob pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth;
- yr angen i gydgrynhoi (os yw'n berthnasol) a materion eraill sy'n ymwneud â hygyrchedd y llyfr statud;
- ansawdd cyffredinol y ddeddfwriaeth.

### Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

**22.** Rhwng mis Medi 2024 a mis Gorffennaf 2025, rydym wedi cwblhau ein gwaith craffu ar 6 Bil a gyflwynwyd i'r Senedd gan Lywodraeth Cymru:

- Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)
- Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)
- Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)
- Y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).
- Y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)
- Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

**23.** Gwnaethom gyfanswm o 104 o argymhellion yn ein hadroddiadau ar y Biliau hyn. Mae ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn i'w gweld ar y dudalen we ar gyfer y Bil perthnasol. Yn gyffredinol, roedd ein hargymhellion yn debyg i'r rhai a oedd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau ar Filiau a gyflwynwyd yn flaenorol yn y Chweched Senedd ac a amlygwyd yn ein hadroddiadau blynyddol blaenorol.

**24.** Ni oedd y pwyllgor a oedd yn gyfrifol am ystyried egwyddorion cyffredinol Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) yng Nghyfnod 1. Gwnaeth ein hadroddiad ar y Bil gyfres o argymhellion, gan gynnwys yr argymhelliad y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried cyflwyno gweithdrefn i ganiatáu cynigion 'meddwl eto' diwygiedig ar gyfer offerynnau statudol cyn diddymiad y Chweched Senedd, ac y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth bellach i gynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'r Bil. Cytunwyd ar welliant i'r Bil yng Nghyfnod 3 wedi hynny i gynnwys adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Rannau 2A a 2B newydd o *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*, fel y'i mewnosodwyd gan y Bil.

**25.** Yn ein hadroddiad ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), daethom i bedwar casgliad a gwnaethom 16 o argymhellion. Tynnwyd sylw at:

- arwyddocâd rhai o'r pwerau gwneud rheoliadau, a oedd yn ceisio ymestyn atebolrwydd trethdalwyr;
- amhriodoldeb cymryd pŵer gwneud rheoliadau bwriadol eang (i osod gofynion hysbysebu a bilio) heb unrhyw fwriad i'w ddefnyddio;
- y cyfiawnhad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru dros ddiogelu'r Bil at y dyfodol drwy gynnwys pŵer eang Harri'r Wythfed sy'n galluogi ymestyn darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â chofrestru a'r ardoll mewn perthynas ag angorfeydd a lleoedd gwag a ddarperir ar gyfer llongau.

**26.** Er na dderbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, argymhellion a oedd yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, derbyniodd ddau argymhelliad a oedd yn ceisio cryfhau gweithdrefnau craffu yn y Bil.

**27.** Fe wnaethom hefyd fynegi ein barn nad oedd Llywodraeth Cymru yn barod i gyflwyno'r Bil i'r Senedd pan wnaeth hynny, a thynnu sylw at sut y mae adran 7 y Bil (fel y'i cyflwynwyd) yn enghraifft o ddarpariaeth sy'n creu anawsterau i'r Senedd wrth ystyried deddfwriaeth sy'n dal i gael ei datblygu'n weithredol gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 1. Yn yr achos hwn, mae cymhlethdod ynghylch bwriad y Llywodraeth mewn perthynas â system gofrestru yn sgil rhyddhau drafft dangosol ar gyfer darpariaethau newydd yn fuan ar ôl i waith craffu Cyfnod 1 ddechrau.

**28.** Daeth ein hadroddiad ar Fil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Segur (Cymru) i dri chasgliad a gwnaeth 22 o argymhellion. Ein prif bryder gyda'r Bil oedd bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu gormod ar ddefnyddio canllawiau i gyflawni amcanion y Bil. Felly, daethom i'r casgliad bod cydbwysedd amhriodol rhwng y darpariaethau a fyddai ar wyneb y Bil neu i'w gwneud drwy reoliadau o

gymharu â'r hyn sydd i'w adael i ganllawiau. Yn ei ymateb, derbyniodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS (y Dirprwy Brif Weinidog), wyth argymhelliad a oedd yn cynnig newidiadau i'r Bil i fynd i'r afael â'n pryderon. Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys derbyn argymhellion i gryfhau'r Bil drwy osod dyletswydd ar Awdurdod Tomenni Gwastraff Cymru i gynhyrchu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni gwastraff segur Categori 1 a 2; ac i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol, i nodi cynnwys gofynnol cynlluniau rheoli.

**29.** Fe wnaethom hefyd gymryd tystiolaeth ar y ddau Fil canlynol yn nhymor yr haf a byddwn yn adrodd arnynt ym mlwyddyn olaf y Chweched Senedd:

- Y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)
- Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

### Adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau

**30.** Ar 2 Mai 2025, darparodd y Pwyllgor ymateb i adolygiad y Pwyllgor Busnes o brosesau'r Senedd ar gyfer craffu ar Filiau Cyhoeddus a Biliau Aelodau, gan dynnu ar ei brofiad o graffu ar filiau yn y Chweched Senedd.

## Biliau a gyflwynwyd i Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig (Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol)

### Cefndir

**31.** Fel rhan o'n cylch gwaith cyffredinol, rydym yn ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth. Un agwedd ar y cyfrifoldeb eang hwn yw ystyried, yn unol â Rheol Sefydlog 29, yr holl femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Biliau a gyflwynwyd i Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n ystyried materion datganoledig.

**32.** Ar 4 Rhagfyr 2024, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at y Pwyllgor yn darparu fersiwn ddiwygiedig o egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfu mewn meysydd datganoledig (gweler hefyd y Datganiad Ysgrifenedig). Fe wnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol gyda nifer o gwestiynau am yr

egwyddorion wedi'u hadnewyddu ar 17 Rhagfyr 2024 a chawsom ymateb ar 9 Ionawr 2025.

**Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**

**33.** Mae'r gofynion i graffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol wedi effeithio'n fawr ar ein rhaglen waith unwaith eto.

**34.** Rhwng mis Medi 2024 a mis Gorffennaf 2025, gwnaethom ystyried 54 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn ymwneud â 21 o Filiau'r DU, ac wedi cynhyrchu 38 o adroddiadau.

**35.** Wrth inni ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol, gwnaethom 110 o argymhellion.

**36.** Ar draws ein hadroddiadau a'n hargymhellion, mae pwyntiau a themâu amrywiol wedi dod i'r amlwg o ran y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae ein pryderon wedi cynnwys:

- bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio Bil y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig, yn hytrach na thrwy gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun (gweler ein hadroddiadau ar y Bil Hawliau Rhentwyr a'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig);
- cyfeiriadau mewn memoranda at y ffaith ei bod yn gyflymach deddfu yn Senedd y DU (gweler ein hadroddiadau sy'n ymwneud â'r Bil Hawliau Rhentwyr a'r Bil Iechyd Meddwl);
- peidio â chymryd pwerau cychwyn ar gyfer rhai darpariaethau (gweler ein hadroddiadau ar y Bil Iechyd Meddwl);
- absenoldeb pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig (gweler ein hadroddiadau sy'n ymwneud â'r Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg);
- y ffaith nad yw gwelliannau Llywodraeth y DU wedi datrys pryderon Llywodraeth Cymru yn llawn ac yn cael eu hystyried yn hwyr iawn yn ystod y broses o basio Biliau perthnasol (gweler ein hadroddiadau sy'n ymwneud â'r Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg).

**37.** Mae egwyddorion Llywodraeth Cymru sydd wedi'u diweddaru ar ddefnyddio deddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig yn datgan bod y ffactorau a

ganlyn yn llunio rhan o’i hystyriaeth ynghylch a ddylid argymell rhoi cydsyniad i Filiau a gyflwynir i Senedd y DU:

- dylid rhoi pwerau dirprwyedig mewn Biliau gan Senedd y DU mewn meysydd datganoledig i Weinidogion Cymru yn unig;
- ni ddylai Biliau gan Senedd y DU greu pwerau cydredol; ac
- os bydd Gweinidogion Cymru, mewn “achosion eithriadol”, yn cytuno y dylid creu pwerau cydredol, dylai pwerau o’r fath fod yn ddarostyngedig i’r mecanweithiau cydsynio perthnasol ac i’r eithriadau cysylltiedig o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, fel nad yw’n ofynnol i’r Senedd gael cydsyniad ar gyfer dileu’r pwerau yn y dyfodol.

**38.** Pwerau y caiff Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU eu harfer mewn perthynas â Chymru yw pwerau cydredol.

**39.** Er gwaethaf yr egwyddorion hyn, rydym wedi dod yn bryderus ynghylch y defnydd cynyddol o bwerau cydredol ym Miliau’r DU (gweler ein hadroddiadau sy'n ymwneud â'r Bil Iechyd Meddwl, y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau) a'r Bil Pleidleisio Absennol (Etholiadau yn yr Alban a Chymru)).

**40.** Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn cyfleu ein pryderon ynghylch y terfynau adrodd sy’n cael eu pennu ar gyfer rhai memoranda cydsyniad deddfwriaethol, gan awgrymu dull amgen. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried ymarferoldeb y dull hwn ymhellach.

**41.** Hefyd ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom ysgrifennu at Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, ynghylch penderfyniad i beidio â gosod memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol mewn perthynas â gwelliant i’r Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus). Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar 9 Rhagfyr 2024.

**42.** Ym mis Chwefror 2025, nododd y Pwyllgor Busnes ein pryderon am y ffaith na chyflwynodd Llywodraeth Cymru gynnig i alluogi dadl ar chweched memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig).

## Y diffyg democrataidd parhaus

**43.** Yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar gyfer 2021/22, 2022/23 a 2023/24, mynegwyd pryder gennym fod y defnydd o Filiau’r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn cyfrannu at ddiffyg democrataidd sy’n dod i’r amlwg.

**44.** Fe wnaethom barhau i wneud sylwadau ar y materion hyn drwy ein hadroddiadau ar femoranda unigol. Hefyd, trafodwyd y materion hyn yn fwy cyffredinol gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Dirprwy Brif Weinidog mewn sesiwn dystiolaeth ar 9 Rhagfyr 2024. Yn y sesiwn honno, fe wnaethant geisio rhoi cyfiawnhad dros eu dull gweithredu (gweler Blwch 1 ar y dudalen ganlynol). Fe wnaethom hefyd godi materion yn ymwneud â chapasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu a’r broses graffu Cyfnod 1 ar gyfer Biliau a gyflwynir i’r Senedd mewn sesiwn graffu gyffredinol bellach gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Dirprwy Brif Weinidog ar 9 Mehefin 2025.

### Blwch 1: Dyfyniadau o'r sesiwn dystiolaeth ar 9 Rhagfyr 2024

*"… the LCM process is interesting because we have a much bigger Government beside us that also has a programme to get through, and has bright ideas and has much more space in its programme to have bright ideas that come up… ( …) , And so, I think it's absolutely inevitable that that Government will come up with things that are not in our programme and not in our manifesto, but are nevertheless good for the people of Wales, and our choice then is do we either have them for the people of Wales as well or not have them (…) There is a possibility for some of them that we could do a Welshified Bill of it, but, actually, that sounds easy and almost always turns out to be much more difficult than you think, particularly as the jurisdiction here develops, because the base law is different. So, the idea might be a good one, but, actually, it's really hard to do it in that way. But I do think it's one of the things we need to keep under review and it's one of the things we've discussed, isn't it?"*

*"What we're doing is making sure that the people of Wales benefit from something happening across the border that intimately affects them, in a way that allows us to continue with our own programme."*

*"… equally there's no shame in identifying the appropriate opportunities where, when you have a good and productive piece of legislation coming forward at a UK level that has cross-border issues, and if you've got a Government that is willing to engage with you early and properly and meaningfully, you can say, 'Well, we will look at that. We will consider that on a case-by-case basis.' Now, that probably makes for a leaner, more efficient organisation."*

*"One of the things we could do, as a smart legislature, is actually be sometimes reluctant legislators as well and say, 'Is there another way to do this even faster?'"*

*"But there are issues sometimes where you just think, 'Well, it will take us too long to get our own policy platform in place. The people of Wales will be seriously disadvantaged by not being included and there is an opportunity to be included. So, let's take that opportunity […] So, the renters reform one, for example, was opportunistic. We don't have a legislative vehicle in place to get those reforms in place fast enough, and it seemed to us that, on balance, it was a shame that the Senedd wouldn't have the opportunity to scrutinise that in the way that we would have preferred, but it was better for the people of Wales to have those reforms in place than not, and that is always the balance that the Government has to take into account."*

*"One of the things we've been doing in publishing our principles on UK legislation in devolved areas is talking to the UK Government about having an acceptance by them—and, indeed, I've got this via the Secretary of State for Wales—that these are the principles they should broadly adhere to. I mean, they're not going to make it a constitutional principle, but they are broadly agreeing to adhere to these principles in bringing forward their legislative programme, and that would really help us."*

*"But we have to take a pragmatic approach, sometimes, and say that it's better to have some devolution to Welsh Ministers than to have no devolution."*

## Cydsyniad Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU wneud is-ddeddfwriaeth

### Cefndir

**45.** Mae ein cylch gwaith yn cynnwys ystyried is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig.

**46.** Mae memoranda cydsynio offerynnau statudol Llywodraeth Cymru a osodir yn unol â Rheol Sefydlog 30A yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU sy'n gwneud darpariaeth i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**47.** Rydym hefyd yn ystyried hysbysiadau Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn bwriadu cydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Darperir hysbysiadau o'r fath i'r Pwyllgor yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, a roddwyd ym mis Tachwedd 2021, y tynnwyd sylw ato yn ein hadroddiad ar y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol (gweler Pennod 3).

### Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

**48.** Mae nifer yr offerynnau statudol gan Lywodraeth y DU y mae Llywodraeth Cymru wedi cydsynio iddynt (ac wedi ein hysbysu amdanynt) fel a ganlyn:

- Memoranda cydsyniad offeryn statudol SO30A: 1
- Pob hysbysiad cydsyniad arall: 21

**49.** Rydym yn ystyried hysbysiadau cydsyniad sy'n ymwneud â Llywodraeth y DU yn arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru ym Mhennod 3 (paragraffau 106 a 107).

## Hygyrchedd a chymhlethdod cyfraith Cymru

### Cefndir

**50.** Rydym wedi parhau i ystyried sut y gall ein gwaith gyfrannu at esbonio cymhlethdodau cynyddol y gyfraith yng Nghymru, a thynnu sylw atynt, a pha fesurau y gellir eu cymryd, os o gwbl, i wella ei hygyrchedd.

**51.** Mae llawer o ffyrdd y gallai hygyrchedd cyfraith Cymru gael ei effeithio, boed hynny'n ddiffyg tryloywder ynghylch cywiriadau i is-ddeddfwriaeth ar ôl i'r Senedd

ei chymeradwyo; y diffyg manylion ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol, neu wahanol seneddau’r DU yn gwneud deddfwriaeth ar gyfer Cymru yn yr un meysydd.

## Gwaith craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

### Materion hygyrchedd mewn Biliau ac is-ddeddfwriaeth penodol

**52.** Mae rhai o’n hadroddiadau ar Filiau a osodwyd gerbron y Senedd wedi cynnwys argymhellion sy’n anelu at wella hygyrchedd y Biliau penodol hynny; gweler, er enghraifft, ein hadroddiadau ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) a’r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

**53.** Mae nifer o’n hadroddiadau ar is-ddeddfwriaeth a osodwyd gerbron y Senedd yn y cyfnod adrodd hwn unwaith eto (fel mewn blynyddoedd blaenorol) wedi cynnwys pwyntiau adrodd sydd wedi’u gwneud oherwydd ein bod o’r farn bod angen eglurhad pellach o rywbeth yn ymwneud â ffurf neu ystyr yr offeryn statudol (Rheol Sefydlog) 21.2(v)), oherwydd ein bod yn ystyried bod yr offeryn yn cynnwys gwaith drafftio diffygiol (Rheol Sefydlog 21.2(vi)). Mae’r enghreifftiau lle’r ydym wedi codi materion hygyrchedd yn ein hadroddiadau yn cynnwys: SL(6)521 – Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024 (gweler hefyd yr ohebiaeth gysylltiedig) ac SL(6)535 – Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Isddeddfwriaeth) (Cymru) 2024 (gweler hefyd yr ohebiaeth gysylltiedig).

**54.** Mae ein hadroddiadau ar ddeddfwriaeth yn tynnu sylw’r Senedd a Llywodraeth Cymru at y materion hyn gyda’r nod o sicrhau bod cyfraith sydd wedi’i drafftio’n dda yn cael ei chymeradwyo gan y Senedd a/neu ei gwneud gan Lywodraeth Cymru.

### Ystyriaeth o ‘Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 – Adroddiad Blynyddol 2023-24' gan Lywodraeth Cymru

**55.** Ym mis Rhagfyr 2024, gosododd y Cwnsler Cyffredinol ‘Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 - Adroddiad Blynyddol 2023-2024’ gerbron y Senedd. Fe wnaethom drafod yr Adroddiad Blynyddol yn ein cyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

**56.** Yn dilyn ein hystyriaeth o'r Adroddiad Blynyddol, ysgrifennwyd at y Cwnsler Cyffredinol ar 23 Ionawr 2025 yn ceisio gwybodaeth benodol am ymarfer cydgrynhoi cyfraith gynllunio'r Llywodraeth, ac ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol ar 4 Chwefror 2025.

**57.** Ysgrifennwyd hefyd at y Cwnsler Cyffredinol ar 24 Ionawr 2025 ynghylch materion ehangach a godwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys dosbarthu a chyfleu cyfraith Cymru. Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol i'n llythyr ar 11 Chwefror.

### Gosod offerynnau statudol cyfansawdd a chyd-offerynnau statudol yn y Senedd yn Saesneg yn unig

**58.** Mae ein hystyriaeth o is-ddeddfwriaeth yn golygu adrodd i'r Senedd pan na chaiff offeryn statudol ei osod yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fel y cyfeiriwyd ato yn ein hadroddiad blynyddol blaenorol, mae rhwystrau gweithdrefnol ymddangosiadol yn Senedd y DU yn cyfrannu at barhau i osod rhywfaint o is-ddeddfwriaeth yn y Senedd yn Saesneg yn unig.

**59.** Yn dilyn cyfnewid gohebiaeth â phwyllgorau Senedd y DU a Llywodraeth Cymru y llynedd, eleni fe wnaethom benderfynu ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jo Stevens AS, i ddod â'r mater i'w sylw. Amlygodd ymateb Ysgrifennydd y Wladwriaeth farn cyn-Gadeirydd Pwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin, sef nad oes unrhyw rwystr gweithdrefnol i bob golwg rhag gosod offerynnau statudol dwyieithog yn Senedd y DU lle'r oedd y Ddeddf berthnasol yn ei gwneud yn ofynnol. Yng ngoleuni'r ffaith nad oes unrhyw ofyniad yn y gyfraith sy'n rhagnodi'r iaith y dylid gwneud offeryn statudol ynddi, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrthym mai'r "sefyllfa ddiofyn" felly fydd y gellir gosod offerynnau statudol yn Saesneg yn unig. Dywedodd hefyd y byddai'n agored, yn amodol ar gytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, i unrhyw bwerau newydd o'r natur hon nodi y dylid gwneud yr offeryn statudol perthnasol yn ddwyieithog.

**60.** Fe wnaethom ysgrifennu eto at yr Ysgrifennydd Gwladol a hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Gweithdrefn i geisio eglurhad pellach ar y mater hwn. Dywedwyd wrth yr Ysgrifennydd Gwladol nad oeddem yn cytuno â'i hasesiad y dylai'r safbwynt diofyn fod y dylid gosod offerynnau statudol yn Saesneg yn unig, a thynnwyd sylw at y ffaith bod adran 156 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn ein barn ni, yn galluogi gwneud offerynnau statudol dwyieithog. Yn ei hymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrthym ei bod wedi cadarnhau gyda Swyddfa'r Cyfnodolion yn Nhŷ'r Cyffredin y safbwynt, yn absenoldeb gofyniad statudol i osod offeryn dwyieithog, mai dim ond yn Saesneg y gellid gosod yr offeryn statudol perthnasol yn Senedd y DU. Dywedodd hefyd nad oedd hi'n credu y byddai Senedd y DU yn ystyried bod adran 156 o Ddeddf 2006 yn gyfystyr â gofyniad bod is-ddeddfwriaeth yn cael ei gosod yn ddwyieithog.

## Casgliadau

**61.** Mae'r adran hon yn ymdrin â'n canfyddiadau a'n pryderon, ac mae hefyd yn nodi ein llwyddiannau a'r datblygiadau cadarnhaol a welsom.

**62.** Cydnabyddir y gostyngiad ers y cyfnod adrodd blaenorol yn nifer y pwyntiau adrodd a wnaed oherwydd drafftio diffygiol posibl – o 120 i 88 – ac mae i’w groesawu.

**63.** Fodd bynnag, mae'n siomedig na fu llawer o newid yn nifer y pwyntiau adrodd sy'n nodi anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg; 70 yn y cyfnod adrodd blaenorol a 62 yn y cyfnod hwn.

**64.** O ganlyniad i'n gwaith craffu, rydym wedi cyflwyno system ar gyfer monitro a dadansoddi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gywiro gwallau mewn offerynnau statudol. Credwn fod yr arloesedd hwn yn arwain at well tryloywder gan Lywodraeth Cymru ac wedi arwain at osod dau offeryn statudol cywirol omnibws; gweler SL(6)634 - Gorchymyn y Diwygiadau i Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Isafswm a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 ac SL(6)635 - Rheoliadau Diwygiadau i Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

**65.** O ran craffu ar Filiau, nid ydym wedi nodi unrhyw Filiau a gyflwynwyd fel Biliau fframwaith yn ystod y cyfnod adrodd. Byddwn yn parhau i roi sylw manwl i'r mater hwn yn ystod ein gwaith o graffu ar y Biliau terfynol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn ystod y misoedd sy'n weddill o'r Chweched Senedd.

**66.** Mae ein sylwebaeth yn tynnu sylw at ein gwaith craffu ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. Bil (Cymru) a’r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

**67.** O ran y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. Bil (Cymru), roeddem yn arbennig o siomedig o ran y dull a fabwysiadwyd. Roedd yn ymddangos i ni nad oedd y Bil wedi'i ffurfio'n llawn pan gafodd ei gyflwyno. Er ein bod wedi cydnabod yr ysbryd y rhannwyd darpariaethau drafft ar gyfer gwelliannau Cyfnod 2 ynddo, mae anfanteision clir i'r dull hwn. Ni wnaeth y Memorandwm Esboniadol, sy'n ganolog i waith craffu Cyfnod 1, gwmpasu'r gwelliannau arfaethedig a gall hyn arwain at ddryswch. Yn ogystal, oherwydd nad oedd penderfyniadau polisi arwyddocaol wedi’u hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth pan gafodd ei chyflwyno, roedd y Bil yn cynnwys pwerau eang, y mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi cyfaddef y bydd rhai ohonynt yn cael eu dileu o’r Bil neu eu newid yng Nghyfnod 2.

**68.** Rydym yn pryderu bod y dull hwn yn gwadu’r rôl i’r Senedd ystyried yr holl faterion perthnasol yn llawn a phecyn gwelliannau cydlynol yn ystod gwaith craffu

Cyfnod 1. Ar ben hynny, mae'n cyfyngu ar y cyfle i randdeiliaid ymateb i gynigion Llywodraeth Cymru.

**69.** Credwn fod y dull hwn felly'n llesteirio'r broses graffu ac na ddylid cosbi'r Senedd oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu cyflwyno Bil wedi'i ffurfio'n llawn erbyn y dyddiad cau y mae wedi'i osod iddi hi ei hun.

**70.** Nid ydym yn credu y dylid ystyried y dull a ddefnyddir ar gyfer y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr a Lefi) Etc. (Cymru) fel ffordd briodol neu dderbyniol o gynnig deddfwriaeth.

**71.** O ran Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru), derbyniodd Llywodraeth Cymru, yn llawn neu'n rhannol, 14 o'r 22 o argymhellion a wnaethom, gan gynnwys wyth a oedd yn cynnig newidiadau i'r Bil i fynd i'r afael â'n pryderon. Rydym yn croesawu'r ffordd gadarnhaol ac adeiladol y gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'n hadroddiad ac ymateb iddo.

**72.** Credwn fod adroddiad y Pwyllgor a pharodrwydd Llywodraeth Cymru i ystyried ein hargymhellion yn dangos manteision craffu deddfwriaethol yn y Senedd, gan arwain at ddarn gwell o gyfraith ac, yn yr achos hwn, ganlyniadau gwell o bosibl i gymunedau yr effeithir arnynt gan domenni segur.

**73.** Mae ein holl adroddiadau blynyddol hyd yn hyn wedi mynegi pryderon ac amheuon difrifol ynghylch defnydd Llywodraeth Cymru o Filiau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig. Nid yw'r farn gyffredinol honno wedi newid yn ystod cyfnod adrodd 2024/25 ac rydym yn parhau i fod yn anfodlon â'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru.

**74.** Un o'n pryderon mwyaf oedd bod Llywodraeth Cymru yn fodlon defnyddio Bil Hawliau Rhentwyr Llywodraeth y DU i wneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn maes datganoledig. Nodwn fod y darpariaethau yn y Bil Hawliau Rhentwyr sydd angen cydsyniad fwy neu lai yr un fath â'r rhai a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) a fethodd pan ddiddymwyd Senedd y DU ym mis Mai 2024.

**75.** Cyfleodd ein hadroddiad bryder nad yw'r darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil ond yn efelychu'r darpariaethau a ddyluniwyd yn wreiddiol ar gyfer Lloegr gyda rhai addasiadau, er bod gwahaniaethau sylweddol yn y dull gorfodi rhwng Cymru a Lloegr. O ganlyniad, mynegodd y Pwyllgor ei rwystredigaeth bod dau Fil tai, a oedd yn destun gwaith craffu manwl, a ddaeth yn Ddeddfau'r Senedd (y *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* a'r *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019*) yn cael eu diwygio gan ddefnyddio deddfwriaeth a ystyriwyd yn San Steffan, a chyda'r mewnbwn lleiaf posibl gan Aelodau etholedig y Senedd hon.

**76.** Dywedwyd y gallai gwaith craffu manwl yn y Senedd fod wedi arwain at ddeddfwriaeth well, fwy gwybodus. Ar ben hynny, mae llunio deddfwriaeth wedi'i theilwra i anghenion Cymru yn egwyddor allweddol sy'n sail i ddatganoli. O ganlyniad, daethom i'r casgliad bod dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio'r Bil Hawliau Rhentwyr i ddeddfu ar gyfer Cymru ym maes polisi tai, sy'n eithrio'r Senedd fel deddfwrfa a rhanddeiliaid yng Nghymru, yn cynrychioli ymagwedd anffodus ac annerbyniol at ddatganoli.

**77.** Tynnwyd sylw at y mater hwn o deilwra deddfwriaeth i anghenion dinasyddion Cymru yn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Hawliau Rhentwyr. Yn y ddadl honno, nododd John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a Carolyn Thomas AS, siom nad oedd y ddarpariaeth ym Mil Llywodraeth y DU sy'n ymwneud ag anifeiliaid anwes yn ymestyn i Gymru. Pe bai Bil hawliau rhentwyr wedi'i gyflwyno i'r Senedd a phe na bai darpariaethau yn ymwneud ag anifeiliaid anwes wedi'u cynnwys, gellid bod wedi profi'r mater a'i archwilio gan ddefnyddio gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnodau 2 a 3 y broses ddeddfwriaethol. Gwadodd y defnydd o Fil Llywodraeth y DU y cyfle hwnnw i Aelodau'r Senedd.

**78.** Mae un mater pwysig arall yr hoffem ei amlygu. Ceisiodd Llywodraeth Cymru gyfiawnhau ei dull gweithredu drwy ddweud yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd ym mis Medi 2024:

> *"... byddai ceisio cymhwyso'r darpariaethau gwahaniaethu i Gymru mewn Bil gan Senedd y DU yn fy ngalluogi i gyflawni nod polisi arwahanol yn brydlon, o fewn amserlen llawer byrrach nag a fyddai'n bosibl fel arall pe baem yn ceisio cyflawni'r un nod drwy ddeddfwriaeth yn y Senedd."*

**79.** Fodd bynnag, nid oedd y Bil Hawliau Rhentwyr wedi cwblhau ei daith eto drwy Senedd y DU erbyn diwedd y cyfnod y mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ei gwmpasu (31 Awst 2025). Fel y nododd ein hadroddiad, credwn y gallai Bil Llywodraeth Cymru ar hawliau rhentwyr a gyflwynwyd i'r Senedd fod wedi cwblhau ei daith yn hydref 2024, gan ddod â manteision i Gymru yn llawer cynt.

**80.** Fe wnaethom dynnu sylw at themâu tebyg, sef y Senedd yn cael ei gwthio o'r neilltu fel deddfwrfa ac yn manteisio ar Filiau Llywodraeth y DU yn ein gwaith craffu ac yn ein hadroddiadau ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol eraill.

**81.** Roedd gennym amheuon cryf ynghylch y wybodaeth a nodwyd yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) Llywodraeth y DU. Yn ein hadroddiad, daethom i'r casgliad bod

tystiolaeth Llywodraeth Cymru i gyfiawnhau ei dull o ddefnyddio'r Bil i ddeddfu ym maes datganoledig polisi dŵr yn wan oherwydd bod y dystiolaeth a ddarparwyd ar adegau yn anghywir ac yn groes i'w gilydd. Roedd hefyd yn ymddangos yn groes i strategaeth ddŵr Llywodraeth Cymru yn 2015. Yn ogystal, daethom i'r casgliad bod defnydd Llywodraeth Cymru o'r Bil i geisio darpariaeth i Gymru yn ein hatgoffa o ddatganoli gweithredol y Cynulliad cyntaf a'r ail Gynulliad, sy'n anfoddhaol ac yn destun gofid.

**82.** Yn dilyn hynny, fe wnaethom ymateb i alwad am dystiolaeth gan y Comisiwn Dŵr Annibynnol mewn perthynas â'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr. Yn ein llythyr, fe wnaethom dynnu sylw at ein hadroddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) gan ddweud, wrth fframio a gwneud ei waith, y dylai'r Comisiwn ystyried: pwysigrwydd y setliad datganoli; rôl y Senedd fel deddfwrfa; a rôl Aelodau'r Senedd o ran deall anghenion cymunedau yng Nghymru fel rhan o'u rôl graffu.

**83.** Yn ein hadroddiadau ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â Bil Iechyd Meddwl Llywodraeth y DU, tynnwyd sylw at bwynt cyffredinol, sef mai'r ffordd i gyflawni canlyniadau sydd er budd gorau Cymru yw deddfu drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y Senedd. Daethom i'r casgliad hefyd fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Bil i ddeddfu dros Gymru mewn perthynas ag iechyd meddwl yn tanseilio datganoli.

**84.** Yn ein llythyr at y Cwnsler Cyffredinol ar 17 Rhagfyr 2024, fe wnaethom nodi fod y Pwyllgor wedi disgrifio Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig fel rhai "diffygiol" yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar gyfer 2021/22 a 2022/23 oherwydd bod yr egwyddor graidd o ddefnyddio Biliau Llywodraeth Cymru i ddeddfu yn ddarostyngedig i eithriad cyffredinol sy'n golygu mai dim ond "gwerth bach" sydd i'r egwyddor honno. Pan ofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd yr Egwyddorion wedi'u hadnewyddu yn mynd i'r afael â'r pryder hwn, ymatebodd drwy ddweud:

> *"Nid wyf yn cytuno â'r farn bod yr egwyddorion yn ddiffygiol. Mae'r egwyddorion yn dangos yr ystyriaethau yr ydym yn eu hystyried wrth ddod i safbwyntiau ar ddeddfwriaeth y DU."*

**85.** Wrth inni graffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol, rydym wedi ceisio deall sut y mae'r egwyddorion hyn yn gweithio'n ymarferol.

**86.** Yn ein hadroddiad ar y memoranda sy'n ymwneud â'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig), fe wnaethom nodi sylwadau'r Dirprwy Brif Weinidog fod gwelliannau i'r Bil yn mynd yn groes i egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau'r

DU i ddeddfu dros Gymru. Fe wnaethom argymell y dylai egluro pam. Yn ei ymateb, ni chyfeiriodd at y pwynt hwn yn uniongyrchol.

> "**Argymhelliad 5.** *Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro ymhellach ei sylwadau ynghylch gwelliannau i'r Bil sy'n destun Memorandwm Rhif 4, yn enwedig y rhesymau pam mae'r gwelliannau'n mynd yn groes i egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu ar gyfer Cymru.*
>
> *Gosodwyd Memorandwm Rhif 4 mewn perthynas â gwelliannau anllywodraethol a dderbyniwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn y Cyfnod Adrodd. Ni chafodd y gwelliannau hyn gefnogaeth y llywodraeth ac felly cawsant eu dileu yn Nhŷ'r Cyffredin yn y Cyfnod Pwyllgor. Aethpwyd i'r afael â hyn ym Memorandwm Rhif 5. Felly, nid oedd fersiwn y Bil y pleidleisiodd y Senedd arno yn cynnwys y gwelliannau y cyfeiriwyd atynt ym Memorandwm Rhif 4."*

**87.** At hynny, yn y trydydd memorandwm ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, dywedodd Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, nad oedd angen y gofyniad i gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol i arfer swyddogaeth gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru mewn cymal i'w fewnosod drwy welliant. Yn ein hadroddiad, fe wnaethom dynnu sylw at y dystiolaeth a roddwyd gan Dawn Bowden AS, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; mewn trafodaeth ar y mater penodol hwn dywedwyd wrth y Pwyllgor hwnnw:

> *"It is what it is … we don't agree that this should be the way that it is done. … But I think you have to come to a position, at some point, about what is the greater good …".*

**88.** Fel y nodir ym mharagraff 39, mae adroddiadau eraill ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol wedi tynnu sylw at ein pryder ynghylch derbyniad Llywodraeth Cymru o'r defnydd o bwerau cydredol. Er enghraifft, ar y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau), nid oedd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol perthnasol yn egluro beth oedd yn gyfystyr â'r "amgylchiadau eithriadol" i gyfiawnhau'r dull a gymerwyd. Ar y Mesur Iechyd Meddwl, roedd y dull yn wahanol; pan wnaethom ofyn i Sarah Murphy AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, esbonio pam mae'r Bil yn creu pwerau cydredol nad ydynt yn ddarostyngedig i fecanweithiau cydsynio perthnasol a'r eithriadau cysylltiedig o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, dywedodd wrthym, er mai dyna oedd y safbwynt a ffafrir:

> *"... mae'r pwerau cydredol yn y Bil hwn yn ymwneud â phwerau gwneud diwygiadau canlyniadol ac rwy'n ystyried bod y risgiau sy'n deillio o'r posibilrwydd y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y swyddogaethau hyn i Gymru yn fach ac yn dderbyniol."*

**89.** Datgelwyd hefyd bod dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â phwerau cychwyn yn anghyson. Ar y Bil Iechyd Meddwl, yn ein hadroddiad ar y ddau femorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf, gwnaethom ddau argymhelliad ynghylch cymal 53 sy'n ymwneud â darpariaethau cychwyn; fe wnaethom amlygu'r ffaith os yw rhai darpariaethau yn y Bil yn gofyn am gydsyniad, yna dylai bod angen hynny ar gyfer y darpariaethau sy'n eu cychwyn hefyd; a hefyd y byddai'n briodol ac yn synhwyrol i bwerau cychwyn o'r fath orwedd gyda Gweinidogion Cymru. Gwrthodwyd y ddau argymhelliad, ac roedd y rheswm dros beidio â rhoi pwerau cychwyn i Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

> *"Mae'r ddarpariaeth cychwyn yn sicrhau y gall amcanion polisi o dan y Bil gael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn osgoi cymhlethdodau ac anymarferoldeb posibl a allai godi pe bai darpariaethau cychwyn ar wahân yn cael eu cynnwys yn y Bil mewn perthynas â Chymru, nad yw'n ymddangos yn angenrheidiol yng nghyd-destun y Bil hwn."*

**90.** Fe wnaethom fynegi ein pryder ynghylch goblygiadau gwrthod ein hargymhellion ynghylch y darpariaethau cychwyn mewn adroddiad pellach.

**91.** Fodd bynnag, o ran y Bil Llesiant Plant ac Ysgolion, defnyddiwyd dull gwahanol. Roedd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn cydnabod bod angen cydsyniad ar gyfer pwerau cychwyn, a oedd i'w harfer gan Weinidogion Cymru.

**92.** Yn fwy cyffredinol, roedd y dystiolaeth a glywsom gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol ar 9 Rhagfyr 2024 (y mae peth ohoni ym Mlwch 1) ynglŷn â defnyddio Biliau a gyflwynir i Senedd y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn peri pryder.

**93.** Ymddengys i'r Pwyllgor, yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywsom dros y cyfnod adrodd hwn, nad oes unrhyw 'linellau coch' a fyddai'n atal Llywodraeth Cymru rhag defnyddio Bil Llywodraeth y DU, sy'n eithrio Aelodau'r Senedd rhag gallu cyflawni eu dyletswyddau craffu fel deddfwyr, rôl y maent wedi'u hethol ar ei chyfer.

**94.** O ganlyniad i beidio â gallu canfod sefyllfa lle byddai'r egwyddorion wedi'u hadnewyddu yn atal Bil y DU rhag cael ei ddefnyddio, mae'n ymddangos i'r

Pwyllgor hefyd fod yr egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u mabwysiadu yn fwy o offeryn i'w galluogi i gyfiawnhau defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig.

# 3. Materion cyfansoddiadol

## Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### Cefndir

**95.** O dan y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi gwybod inni am ei chyfranogiad mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol, ar lefel weinidogol, cytundebau, concordatau, a memoranda cyd-ddealltwriaeth.

**96.** Cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd i roi o leiaf mis o rybudd inni am gyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol, yn ogystal â chrynodeb ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd o fewn pythefnos ar ôl y cyfarfod, cyn belled ag y bo modd. Mae'r cytundeb yn nodi y bwriedir i'r rhybudd ymlaen llaw ynghylch cyfarfodydd alluogi'r Pwyllgor(au) i fynegi barn ar y pwnc ac, os yw'n briodol, gallant wahodd y Gweinidog cyfrifol i fynychu cyfarfod y pwyllgor cyn y cyfarfod hwnnw. Mae'r cytundeb hefyd yn nodi y dylai crynodebau ysgrifenedig gynnwys arwydd o'r materion allweddol a chynnwys y trafodaethau ac amlinelliad o'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

**97.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno i'n hysbysu ni a phwyllgorau perthnasol eraill o'i bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru; a, phan fo amser yn caniatáu hynny, bydd yn rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn i gydsyniad gael ei roi'n ffurfiol.

### Hysbysiad o gyfranogiad Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel weinidogol

**98.** Eleni, cawsom ein hysbysu am gyfranogiad Llywodraeth Cymru mewn 37 o gyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel weinidogol. Cawsom rybudd ymlaen llaw am 31 o gyfarfodydd a gynhaliwyd, ac am yr eitemau i'w trafod, ond cawsom o leiaf mis o rybudd ar gyfer tri o'r cyfarfodydd hyn yn unig.

**99.** Yn nodedig, dim ond diwrnod o rybudd a gawsom o gyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2024 a 27 Chwefror 2025, a dim ond dau ddiwrnod o rybudd o'i gyfarfod ar 26 Mehefin 2025. Yn yr un modd, ar gyfer y ddau gyfarfod o Gyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2024, a 23 Mai 2025, dim ond diwrnod cyn y cyfarfodydd y derbyniodd y Pwyllgor hysbysiad.

**100.** Mae derbyn rhestr gynhwysfawr o'r eitemau i'w trafod mewn digon o amser cyn cyfarfodydd yn ein galluogi ni a phwyllgorau eraill y Senedd i ddod â materion perthnasol i sylw Gweinidogion Llywodraeth Cymru sy'n bresennol yn y cyfarfodydd hynny. Er enghraifft, ar ôl derbyn manylion yr eitemau i'w trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 26 Mehefin 2025, fe wnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford MS, i ofyn am wybodaeth am drafodaethau i'w cynnal yn y cyfarfod ynghylch y pwerau cymorth ariannol a gynhwysir yn y *Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*. Yn dilyn y cyfarfod, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod inni ei fod wedi codi'r mater a chadarnhau bod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ymwybodol o bryderon y cenhedloedd datganoledig ar y mater.

**101.** Mewn sesiwn dystiolaeth ar 9 Mehefin 2025, trafododd y Dirprwy Brif Weinidog yr hysbysiad a roddwyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru cyn cyfarfodydd ffurfiol. Dywedodd weithiau nad yw rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw yn bosibl oherwydd, er enghraifft, cyfarfodydd a drefnwyd ar fyr rybudd, neu ystyriaethau diogelwch.

## Crynodebau ysgrifenedig yn dilyn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol

**102.** O'r crynodebau ysgrifenedig a ddarparwyd inni yn dilyn cyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel gweinidogol, derbyniwyd 12 o fewn y cyfnod o bythefnos a bennir yn y Cytundeb. Yn benodol, ni roddwyd unrhyw esboniad inni pam y cawsom ein hysbysu dros dri mis ar ôl i gyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael ei gynnal.

**103.** Mae hyd y crynodebau ysgrifenedig a ddarperir i'r Pwyllgor yn amrywio. Er enghraifft, rydym yn derbyn crynodebau cynhwysfawr o drafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn gyson, tra bod crynodebau a ddarperir yn dilyn cyfarfodydd rhai grwpiau rhyngweinidogol eraill yn aml yn fwy cyfyngedig.

**104.** Yn dilyn y sesiwn ar gysylltiadau rhynglywodraethol gyda'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ym mis Mawrth 2025, ysgrifennodd y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS, at y Pwyllgor hwnnw i ddarparu rhagor o wybodaeth. Yn ei llythyr, trafododd y Prif Weinidog ddulliau adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfarfodydd rhynglywodraethol. O ran amseroldeb adrodd, dywedodd:

> *"… officials in the central intergovernmental relations team will further emphasise through internal discussions, training and guidance the importance of swift reporting of information*

> *related to formal intergovernmental meetings in line with the Inter Institutional Relations Agreement."*

**105.** O ran lefel y manylion a ddarparwyd yn dilyn cyfarfodydd, dywedodd y bydd hyn yn amrywio oherwydd natur y trafodaethau a'r ymrwymiadau cyfrinachedd, a bod y cyfyngiad hwn yn cael ei dderbyn a'i adlewyrchu yn y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol ei hun.

### Hysbysiad o gydsyniad gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru

**106.** Cawsom ein hysbysu am benderfyniadau Llywodraeth Cymru i gydsynio i Lywodraeth y DU arfer pwerau mewn meysydd datganoledig mewn 19 o eitemau o ddeddfwriaeth ddirprwyedig. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad ers y llynedd, pan gawsom wybod am bwerau o'r fath a arferwyd mewn perthynas â 27 eitem o ddeddfwriaeth.

**107.** O blith yr eitemau o ddeddfwriaeth hyn, cawsom hysbysiad ymlaen llaw o fwriad Llywodraeth Cymru i gydsynio i 17 offeryn, sy'n gynnydd sylweddol o gymharu â'r llynedd. Hefyd, cawsom esboniad bob amser pam na roddwyd unrhyw rybudd, neu pam y rhoddwyd rhybudd byr: er enghraifft, oherwydd rhesymau brys neu pryd y rhannwyd drafftiau o ddeddfwriaeth ar fyr rybudd.

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

**108.** Mae ein hadroddiadau monitro yn amlygu gweithgaredd penodol mewn perthynas â chysylltiadau rhynglywodraethol.

**109.** Sefydlodd yr Adolygiad Rhynglywodraethol ('yr adolygiad') system dair haen o gysylltiadau rhynglywodraethol yn y DU. Sefydlodd hefyd ysgrifenyddiaeth cysylltiadau rhynglywodraethol annibynnol, a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2025 bod ganddi gyflenwad llawn o staff.

**110.** Awgrymodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jo Stevens AS, ym mis Ionawr 2025 fod pob lefel o'r strwythurau ffurfiol ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol a sefydlwyd gan yr adolygiad wedi cael eu tanddefnyddio yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**111.** Dywedodd y Prif Weinidog ym mis Chwefror 2025 nad oedd strwythurau ffurfiol wedi cael eu defnyddio llawer o dan Lywodraeth flaenorol y DU. Ym mis Mawrth 2025, dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gweld cysylltiadau llawer amlach â Llywodraeth y DU nag a welwyd o'r blaen.

**112.** Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Gorffennaf 2024. Datganodd y Dirprwy Brif Weinidog adeg gosod yr adroddiad fod y profiad o weithio rhynglywodraethol a amlinellwyd yn yr adroddiad wedi "datblygu'n sylweddol ers y pwynt hwnnw".

**113.** Yn wir, yn ystod y flwyddyn, roedd nifer y cyfarfodydd a adroddwyd inni yn uwch nag yng nghyfnod adrodd y llynedd. At hynny, sefydlwyd dau grŵp rhyngweinidogol ychwanegol: y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau.

**114.** Ar 9 Mehefin 2025, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn cael mwy o'r cyfarfodydd mwy ffurfiol a systematig hynny yn fwy rheolaidd fel rhan o'r peirianwaith rhynglywodraethol nag o'r blaen. Ychwanegodd y bu gwelliant amlwg yn rheoleidd-dra a phroses rythmig y cysylltiadau rhynglywodraethol, yn ogystal â'r ymgysylltiad ystyrlon, ond nad yw'n gyffredinol.

**115.** Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol fod y cyfarfodydd bellach yn digwydd yn amlach gyda Gweinidogion y DU yn gallu gwneud penderfyniadau, sy'n golygu bod gan gyfarfodydd fwy o "sylwedd".

**116.** Cynhaliwyd ail gyfarfod Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau ar 23 Mai 2025. Cyfarfu'r Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig ar yr un diwrnod hefyd.

**117.** O ystyried ei fod o fewn ei chylch gwaith, rydym wedi gwahodd y Prif Weinidog i roi tystiolaeth ar gysylltiadau rhynglywodraethol ond nid yw ein gwahoddiadau wedi cael eu derbyn.

## Fframweithiau Cyffredin

**118.** Rydym wedi parhau i oruchwylio gwaith craffu Pwyllgorau eraill y Senedd ar fframweithiau cyffredin unigol wrth iddynt gael eu cyhoeddi ar gyfer gwaith craffu.

**119.** Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd y Gweinidog Polisi Masnach a Diogelwch Economaidd yn Llywodraeth y DU ar y pryd, Douglas Alexander AS, ddatganiad ysgrifenedig ar yr adolygiad o *Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (Deddf 2020). Yn ei ddatganiad, dywedodd:

> *"… the Government consider common frameworks to be the key fora for supporting collaborative policymaking processes in the*

*areas they cover, managing policy divergence between the UK's nations where it occurs, and maximising the benefits of taking different, innovative approaches in different parts of the UK."*

**120.** Ychwanegodd fod Llywodraeth y DU yn anelu at yr hyn a ganlyn:

> *"… to finalise the common frameworks programme by Easter 2025 ensuring the necessary structures exist for joined up intergovernmental discussions around regulatory divergence and implications for the performance of the UK internal market."*

**121.** Ym mis Mawrth 2025, dywedodd Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, Pat McFadden AS, fod Llywodraeth y DU yn gobeithio llunio rhaglen derfynol y Fframweithiau Cyffredin erbyn diwedd 2025.

**122.** Mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Ebrill 2025, datganodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"[rwyf] wedi cael fy nghalonogi gan y bwriad a nodwyd i wneud fframweithiau cyffredin yn brif fecanwaith ar gyfer mynd ati ar y cyd i ystyried gwahaniaethau mewn polisi."*

**123.** Mewn sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2025, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod Fframweithiau Cyffredin yn rhan "hanfodol" o reoli aliniad a gwahaniaeth rheoleiddiol. Ychwanegodd:

> "*I'm not saying I am confident, I'm not saying I can guarantee, but I am hopeful, and you can read between the lines on that—that common frameworks can be lifted up once again to the position they should occupy within inter-governmental relations*."

**124.** Yn ei ymateb i'r Adolygiad o Ddeddf 2020, ymrwymodd Llywodraeth y DU i flaenoriaethu defnyddio Fframweithiau Cyffredin:

> *"… by firmly establishing Common Frameworks as the principal place for intra-governmental policy discussion, we aspire to see genuine collaborative working between the four governments in the best interests of our country and its citizens, effectively moving the UK Internal Market Act into the background, only operating to underpin an efficient and effective UK internal market."*

**125.** Ym mis Gorffennaf 2025, ysgrifennodd y cyn-Weinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet, Douglas Alexander AS, at yr Arglwydd Strathclyde gyda diweddariad ar y rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Nododd, fod 1 Fframwaith o blith 32 wedi'i gwblhau, bod 23 wedi cwblhau’r broses graffu, bod 4 yn aros i Gynulliad Gogledd Iwerddon graffu arnynt, a bod 2 mewn camau cynharach. O ran y 2 sy'n weddill, dywedodd fod trafodaethau'n parhau ynghylch a oes angen Fframwaith ar gyfer Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol, ac roedd Llywodraeth y DU wedi penderfynu nad oedd angen Fframwaith ar gyfer Meintiau Penodol a Nwyddau wedi'u Pecynnu.

**126.** Nid yw'n glir chwaith sut y bydd Fframweithiau Cyffredin yn rhyngweithio â deddfwriaeth ddomestig arall. Yn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, nad yw'r rhyngweithio rhwng y Bil a'r Fframweithiau Cyffredin "yn gwbl glir ar hyn o bryd" oherwydd bydd yn dibynnu ar "y ffordd y caiff y pwerau dirprwyedig eu harfer yn y dyfodol, yn ogystal â bodolaeth pwerau dirprwyedig eraill sy'n berthnasol i'r meysydd fframwaith priodol".

## Gweithredu Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

**127.** Drwy gydol y flwyddyn hon, rydym wedi parhau i fonitro gweithrediad Deddf 2020. Bu hyn o ddiddordeb i'r Pwyllgor drwy gydol y Chweched Senedd ac eleni gwelwyd datblygiad sylweddol gyda Llywodraeth y DU yn ymgymryd â'r adolygiad statudol o Ddeddf 2020.

**128.** Yn y cyfnod adrodd blaenorol, buom yn gweithio gyda'r Athro Thomas Horsley o Brifysgol Lerpwl i ddeall yn well effaith Deddf 2020 ar ddeddfu yng Nghymru. Helpodd y gwaith hwn i lywio adroddiad a luniwyd ar y cyd gan yr Athro Horsley ar Ddeddf 2020 a datganoli, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024.

**129.** Yn ogystal ag ystyried y materion cyfansoddiadol sy'n ymwneud â'r Ddeddf 2020, rydym hefyd wedi parhau i graffu ar ddeddfwriaeth Cymru a'r DU yr ydym yn ystyried a allai ryngweithio â'r Ddeddf. Yn ogystal, rydym wedi cynnal perthynas gadarnhaol â Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac wedi cymryd tystiolaeth ar eu hadroddiad blynyddol ym mis Medi 2024 (gweler paragraff 136 i 138).

### Adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

**130.** Mae Deddf 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal adolygiad ar rai agweddau ar Ran 1, Rhan 2 a Rhan 4 o'r Ddeddf cyn y bumed flwyddyn ar ôl iddi ddod i rym. Fodd bynnag, ehangodd Llywodraeth y DU

gwmpas yr adolygiad y tu hwnt i ofynion cul Deddf 2020 i gynnwys gweithrediad ymarferol Rhannau 1, 2 a 3 a'r rôl a'r swyddogaethau a gyflawnir gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol fel y nodir yn Rhan 4.

**131.** Roeddem yn croesawu ehangu cwmpas yr adolygiad, fodd bynnag, roeddem yn siomedig bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod diddymu'r Ddeddf 2020 gyfan, neu ran ohoni, ac nad oedd wedi cynnwys y pwerau cymorth ariannol yn Rhan 6 yn yr adolygiad.

**132.** Gan ein bod wedi datblygu profiad ac arbenigedd sylweddol ar weithrediad marchnad fewnol y DU ers i Ddeddf 2020 ddod i rym, fe wnaethom ymateb i'r ymgynghoriad a lansiwyd gan Lywodraeth y DU ar adolygiad y Ddeddf.

**133.** Yn ein cyflwyniad, nodwyd ein barn y dylai'r adolygiad hwn fod yn gyfle i asesu'n llawn a yw'r gyfundrefn a sefydlwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU yn rheoli gweithrediad marchnad fewnol y DU yn ddigonol, wrth gydnabod cyfreithlondeb democrataidd y deddfwrfeydd a'r llywodraethau datganoledig i wneud deddfau sydd o fewn eu cymhwysedd (a'u gweithredu'n effeithiol).

**134.** Fe wnaethom hefyd amlinellu ein profiadau o graffu ar ddeddfwriaeth Cymru a'r DU sy'n rhyngweithio â Deddf 2020, gan gynnwys yr effaith bosibl y mae'n ei chael ar ddull Llywodraeth Cymru o ddeddfu a'i pharodrwydd i geisio cytundebau rhynglywodraethol ar gyfer alinio polisi er mwyn osgoi unrhyw effaith bosibl yn sgil yr egwyddorion mynediad i'r farchnad.

**135.** Nododd ein cyflwyniad ddiwygiadau posibl i'r ffordd y mae Deddf 2020 yn gweithredu, gan gynnwys ehangu cwmpas y diffiniad o'r nodau cyfreithlon a amlinellir yn y Ddeddf i gyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol neu drwy ystyried egwyddorion 'sybsidiaredd' a 'chymesuredd' sydd wedi'u hymgorffori ym marchnad sengl yr UE. Hyd yn oed heb y diwygiadau cynhwysfawr hyn, awgrymwyd y gellid gwneud gwelliannau i ddarparu mwy o oruchwyliaeth a thryloywder mewn perthynas â'r drefn ac i symud tuag at system sy'n rheoli gwahaniaethau polisi trwy fframweithiau cyffredin a'r broses ar gyfer eithrio cynhyrchion a gwasanaethau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad.

## Swyddfa'r Farchnad Fewnol

**136.** Mae'r Swyddfa ar gyfer y Farchnad Fewnol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o feithrin dealltwriaeth am weithrediad marchnad fewnol y DU. Mae adroddiadau blynyddol a chyfnodol y Swyddfa yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at y nod hwn. Ym mis Medi 2024, fe wnaethom gynnal ein hail sesiwn tystiolaeth lafar gyda chynrychiolwyr o'r Swyddfa ar ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2023-24.

**137.** Yn y sesiwn hon, clywsom gan y Swyddfa am ei hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru, yn ogystal â'r datblygiadau rheoleiddio presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a gweddill y DU a allai ryngweithio ag egwyddorion mynediad i'r farchnad Deddf 2020.

**138.** Fe wnaethom hefyd holi am y cynnydd y mae'r Swyddfa wedi'i wneud o ran gwella argaeledd data am farchnad fewnol y DU. Rydym yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud yn y maes hwn a lansiad Dangosfwrdd Datblygiadau Rheoleiddio y Swyddfa ym mis Mawrth 2025.

## Gweithio rhyngseneddol

### Y Fforwm Rhyngseneddol

**139.** Cyfarfu'r Fforwm Rhyngseneddol am y chweched tro ar 15 Tachwedd 2024 yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys rôl y deddfwrfeydd datganoledig yng Nghynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, cysylltiadau rhynglywodraethol a fframweithiau cyffredinol.

**140.** Ar 7 Ionawr 2025, cadarnhaodd y Llywydd y byddai'r Pwyllgor yn parhau i gynrychioli'r Senedd ar y Fforwm Rhyngseneddol, ochr yn ochr â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

**141.** Cyfarfu'r Fforwm Rhyngseneddol am y seithfed tro ar 12 Mehefin 2025 yn Nhŷ'r Cyffredin. Trafodwyd amrywiaeth o faterion gan gynnwys gweithrediad *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*, pryderon ynghylch swm y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig gan gynnwys yr heriau a wynebir gan seneddau datganoledig o ran craffu'n effeithiol ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol, a'r prosesau a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010*, gan gynnwys y cyfyngiadau amser sy'n gysylltiedig â'r broses seneddol (gweler yr adran ar Gytundebau Rhyngwladol ym Mhennod 4).

**142.** Trafodwyd y materion hyn wedyn gyda'r Gwir Anrhydeddus Douglas Alexander AS, y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet, ochr yn ochr â thrafodaeth fwy cyffredinol am gysylltiadau rhynglywodraethol.

### Rhannu gwybodaeth â phwyllgorau seneddol eraill y DU a rhoi tystiolaeth iddynt

**143.** Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith Senedd yr Alban ynghylch ei ymchwiliad ar y defnydd o ddeddfwriaeth fframwaith a phwerau Harri'r Wythfed.

Yn dilyn hyn, rhoddodd y Cadeirydd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ochr yn ochr â dau Gynullydd pwyllgorau Senedd yr Alban a Syr Jonathan Jones CB ar 21 Ionawr 2025. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Mawrth 2025.

**144.** Ym mis Mehefin 2025, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi i lywio ei adolygiad o graffu ar gytundebau. Gellir gweld manylion y rhain o fewn yr adran ar Gytundebau Rhyngwladol ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

## Casgliadau

**145.** Er nad yw bob amser yn gallu gwneud hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i ffyrdd o gynyddu cyfran y cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol y mae'r Pwyllgor hwn yn cael eu hysbysu yn eu cylch yn unol â'r cyfnod rhybudd o fis a nodir yn y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

**146.** O ran y crynodebau ysgrifenedig yn dilyn cyfarfodydd rhynglywodraethol, dylid egluro'n glir unrhyw oedi wrth ddarparu'r wybodaeth hon o fewn y cyfnod o bythefnos a nodir yn y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol. Rydym hefyd yn credu bod crynodebau ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Pwyllgor ynghylch y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn darparu meincnod o'r lefel o fanylder yr hoffem ei gweld lle bo modd.

**147.** Rydym yn croesawu ymateb Llywodraeth y DU i'r adolygiad o Ddeddf 2020, a nododd rai newidiadau ymarferol yr ydym yn credu a all fynd i'r afael â rhai o'n pryderon. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y dylid cynnal adolygiad mwy cyfannol o gyfundrefn marchnad fewnol y DU, sy'n ystyried a ddylid diddymu'r Ddeddf. Nodwn farn Llywodraeth Cymru y dylid diddymu'r Ddeddf a'i disodli gan system a gynlluniwyd o amgylch fframweithiau cyffredin. Mae felly'n siomedig bod cyn lleied o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â chwblhau fframweithiau cyffredin.

# 4. Materion allanol

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

**148.** Fel Pwyllgor, rydym yn gyfrifol am ystyried effeithiau cyfansoddiadol materion allanol, gan gynnwys rhwymedigaethau rhyngwladol.

**149.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn ystyried sawl Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Biliau'r DU a gododd faterion yn ymwneud â rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â chyfraith ryngwladol.

## Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

### Adolygiad o Weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

**150.** Rhaid i'r DU a'r UE adolygu gweithrediad y cytundeb masnach a chydweithredu erbyn mis Rhagfyr 2026. Gan adeiladu ar ein gwaith presennol ar Lywodraethiant y DU a'r UE, cynhaliwyd ymchwiliad ar y cyd â thri Phwyllgor Senedd arall i ystyried effaith y cytundeb.

**151.** Casglodd y pedwar pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth ar y cyd â Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, ac anfonwyd rapporteurs ar ymweliad pwyllgor ar y cyd i Frwsel.

**152.** Wrth i'r ymchwiliad ddod i ben, ar 19 Mai 2025, cyhoeddodd y DU a'r UE eu cytundeb diweddaraf, sef Common Understanding, sy'n darparu ar gyfer mwy o gydweithrediad a negodi cytundebau ychwanegol rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae adroddiad y Pwyllgorau'n amlinellu sut y gall y datblygiadau hyn effeithio ar faterion a nodwyd mewn tystiolaeth a gawsom.

**153.** Yn yr adroddiad, rydym yn myfyrio ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar Lywodraethiant y DU a'r UE 2023. Rydym yn ailadrodd ein galwadau am Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ar gysylltiadau'r DU a'r UE rhwng llywodraethau'r DU ac i adolygu cylch gorchwyl y Grŵp Rhyngweinidogol presennol ar gysylltiadau'r DU a'r UE. Mae'r cynigion a amlinellir yn y Ddealltwriaeth Gyffredin yn rhoi mwy o frys i'r galwadau hyn.

## Cytundebau rhyngwladol

**154.** Eleni, rydym wedi ystyried 23 o gytundebau rhyngwladol anfasnachol; wedi cymryd camau pellach mewn perthynas â 5 ohonynt, ac wedi nodi'r 18 arall er

gwybodaeth yn unig. Rydym wedi ystyried cyfanswm o 91 o gytundebau ers sefydlu'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2021.

**155.** Rydym wedi dod â chytundebau penodol, lle y mae eu gweithrediad yn ymwneud â materion datganoledig, i sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys:

- Protocol ar gyfer Cytundeb Interbus ynghylch cludo teithwyr yn rhyngwladol ar fysiau;
- Diwygiadau i'r Cytundeb sy'n Sefydlu Cronfa Datblygu Affrica;
- Cytundeb Partneriaeth Can Mlynedd y DU ac Wcráin.

**156.** Rydym yn dwyn ein hadroddiadau ar gytundebau rhyngwladol i sylw Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, a phwyllgorau eraill y Senedd, pan fo'r materion a godwyd yn ymwneud â materion o fewn eu cylch gwaith.

**157.** Ym mis Mehefin 2025, cyflwynwyd tystiolaeth i adolygiad Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi o graffu ar gytundebau. Mynegwyd ein gofid nad yw'r broses yn y *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* yn darparu rôl ffurfiol i'r deddfwrfeydd datganoledig, a thynnwyd sylw at y ffaith nad yw gwaith craffu'r Senedd ar gytundebau bob amser yn bosibl o fewn y cyfnod cychwynnol o 21 diwrnod a ddarperir yn Neddf 2010. Rydym yn parhau i fod o'r farn bod gwelliannau i waith craffu ar gytuniadau yn y DU yn hanfodol ac yn hir ddisgwyliedig.

**158.** Cyhoeddodd y Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol adroddiad ar ei adolygiad o graffu ar gytundebau yn nodi bod gan y seneddau datganoledig fuddiant cyfreithlon mewn craffu ar gytundebau. Dywedodd hefyd y dylai Llywodraeth y DU ystyried sut y gellir ymgorffori pryderon cyfreithlon, gan gynnwys y rhai a godwyd gennym yn ein cyflwyniad, yn y broses graffu.

## Casgliadau

**159.** Mae'r cynigion a amlinellir yn y Ddealltwriaeth Gyffredin yn rhoi mwy o frys i'n galwadau am Femorandwm Dealltwriaeth newydd ar gysylltiadau'r DU a'r UE rhwng llywodraethau'r DU ac i adolygu cylch gorchwyl y Grŵp Rhyngweinidogol presennol ar gysylltiadau'r DU a'r UE.

**160.** Yn unol â'n pryderon ynghylch cymhlethdod cynyddol cyfraith Cymru, credwn y dylid gwneud pob ymdrech i osgoi gwaethygu cymhlethdod y trefniadau ôl-Brexit. Rhaid i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan drwy symleiddio

ei chyngor a'i chanllawiau ei hun a thrwy sicrhau mwy o dryloywder ynghylch y penderfyniadau a wneir ganddi.

**161.** Mae angen gwneud mwy hefyd i gefnogi cymdeithas sifil a chyrff cynrychioliadol Cymru i gael llais ar y materion hyn.

**162.** Rydym yn gweld, yn gyffredin â phwyllgorau eraill fod rôl hanfodol i'r Senedd yn y goruchwyliaeth ddemocrataidd o'r cytundebau hyn. Bydd hyn yn dod yn gynyddol bwysig yng nghyd-destun y Ddealltwriaeth Gyffredin a'i chynigion ar gyfer aliniad deinamig â fframwaith rheoleiddio'r UE mewn sectorau allweddol i Gymru.

**163.** Mae ein gwaith gyda Phwyllgorau eraill ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, er ei fod yn heriol oherwydd gofynion cystadleuol, yn dangos sut y gall pwyllgorau gydweithio i gael effaith gadarnhaol a helpu i lunio trafodaethau mewn meysydd polisi pwysig a rhai a rennir.

**164.** Credwn fod ein gwaith ar gytundebau rhyngwladol yn bwysig ac yn helpu i dynnu sylw at feysydd polisi rhyngwladol a allai ymddangos yn haniaethol neu'n gysyniadol i ddechrau ond sy'n bwysig ac yn effeithio ar ddinasyddion a chymunedau Cymru. Cafodd y gwaith hwn ei groesawu a'i gefnogi gan bob Prif Weinidog ac eraill yn ystod y Chweched Senedd, yn ogystal â seneddau ac arbenigwyr eraill, a chydnabuwyd yn eang ei fod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at waith craffu ar Gytundebau Rhyngwladol y DU.

# 5. Craffu ar faterion yn ymwneud a chyfiawnder

## Arweinyddiaeth ac atebolrwydd o ran materion cyfiawnder

**165.** Rydym wedi parhau i fonitro a chraffu ar ddatblygiadau o fewn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â materion cyfiawnder. Mae hyn wedi cynnwys newidiadau i strwythurau o fewn Llywodraeth Cymru i ddarparu goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth ar y materion hyn.

**166.** Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad cynnydd ar ei rhaglen waith cyfiawnder. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ym mis Mawrth 2025 na fyddai'n cyhoeddi adroddiad cynnydd arall yn ystod tymor y Senedd hon oherwydd, yn seiliedig ar ei phrofiad o lefel yr ymgysylltu â'r adroddiad cynnydd a gyhoeddwyd yn flaenorol, credai nad dyma yw'r "ffordd fwyaf effeithiol" o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ei rhaglen waith cyfiawnder. Aethom ar drywydd y mater hwn gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol ac yn eu hymateb, fe wnaethant ddweud:

> *"Tangible delivery for the people of Wales is being prioritised across government. As such, our default position is to not publish strategies, frameworks, plans and annual report type documents unless it is absolutely necessary.*
>
> *Publishing a further progress report on Delivering Justice for Wales would require a significant amount of civil service resource to produce in addition to the information already provided to the Senedd and otherwise made public by various means about the areas of work which were covered within Delivering Justice for Wales."*

**167.** Mewn sesiwn dystiolaeth ar 9 Mehefin 2025, fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog am statws Is-bwyllgor ar Gyfiawnder Cabinet Llywodraeth Cymru. Nid oedd yr Is-bwyllgor, a sefydlwyd mewn ymateb i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, wedi cyhoeddi cofnodion ar gyfer cyfarfod ers mis Chwefror 2024. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym nad yw'r Is-bwyllgor yn cwrdd bellach a'i fod wedi'i ddisodli yn lle hynny gan gyfarfodydd sy'n dwyn ynghyd y cydweithwyr gweinidogol hynny sydd â diddordeb portffolio mewn cyfiawnder, gyda ffocws sy'n llawer mwy pendant ac yn seiliedig ar y canlyniadau y maent yn ceisio eu cyflawni. Pan ofynnwyd a fyddai cofnodion y cyfarfodydd hynny'n cael eu cyhoeddi, cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog na fyddent yn cael eu cyhoeddi yn yr un ffordd ag y byddai cofnodion Is-bwyllgor y Cabinet.

## Cyllideb Ddrafft 2025-26

**168.** Fel mewn blynyddoedd blaenorol, fe wnaethom graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder. Cytunwyd y dylid cynnal y gwaith craffu hwn drwy gyfnewid gohebiaeth â Gweinidogion perthnasol Cymru. Yn dilyn ein ceisiadau am wybodaeth, cawsom dystiolaeth ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd adroddiad ar ein gwaith craffu ym mis Chwefror 2025.

**169.** Yn ein hadroddiad, fe wnaethom amlinellu ein siom bod y wybodaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru am ei gwariant arfaethedig ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn llai cynhwysfawr nag a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Er ein bod yn cydnabod yr anawsterau o ran dadgrynhoi'r wybodaeth hon, nodwyd ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd y gall wella lefel y wybodaeth y mae'n ei darparu i'n Pwyllgor.

**170.** Er gwaethaf y siom hon, roeddem yn croesawu'r adnoddau ychwanegol cymedrol a ddarparwyd i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer Trawsnewid Cyfiawnder a'r BEL Diwygio Cyfansoddiadol yn 2025-26 a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am ba ffrydiau gwaith y bydd yr adnoddau ychwanegol hyn yn eu cefnogi. Amlinellodd Llywodraeth Cymru y meysydd hyn yn ei hymateb i'n hadroddiad ni.

**171.** Fe wnaethom hefyd groesawu'r cynnydd yn y cyllid a ddarperir i gefnogi'r Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid, a'r cyllid parhaus a ddarperir i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru, yn ychwanegol at yr hyn sydd ar gael i heddluoedd yn Lloegr.

## Cysylltiadau rhynglywodraethol ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder

**172.** Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, rydym wedi nodi'r ymgysylltiad cadarnhaol cyfyngedig sydd wedi digwydd rhwng llywodraethau Cymru a'r DU, yn enwedig ar ddatblygu rhai o argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru y mae'r ddwy Lywodraeth yn gyfrifol amdanynt ar y cyd.

**173.** Yn ein sesiwn dystiolaeth ar 9 Mehefin 2025, fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud gyda Llywodraeth bresennol y DU ar yr argymhellion hynny. Dywedodd wrthym, er gwaethaf y newid llywodraeth, na fu naid ymlaen sydyn ar argymhellion ehangach y Comisiwn, o ystyried yr "heriau" gyda'r system gyfiawnder y bu Llywodraeth y DU yn canolbwyntio arnynt. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog

wrthym y bu Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu trafodaethau ar yr ymrwymiadau maniffesto a wnaed yn Etholiad Cyffredinol y DU, megis datganoli elfennau o'r system gyfiawnder, ac ar wella argaeledd data wedi'u ddadgrynhoi ar gyfer Cymru.

**174.** Un maes a oedd wedi gwella o dan Lywodraeth flaenorol y DU oedd sefydlu Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder. Cyfarfu'r grŵp hwn ddwywaith rhwng mis Medi 2023 ac Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ni chyfarfu tan 3 Gorffennaf 2025, bron i flwyddyn ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU.

**175.** Pan sefydlwyd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder, dywedodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, ei fod yn gweld sefydlu'r grŵp a chynnwys Llywodraeth Cymru ynddo fel a ganlyn:

> *“[mae’n] gydnabyddiaeth bwysig bod y dirwedd gyfiawnder yng Nghymru yn wahanol i'r dirwedd yn Lloegr. Mae angen ystyried ei anghenion ar wahân felly, yn ogystal â sicrhau bod yr un arwyddocâd â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig yn cael ei rhoi iddi.”*

**176.** Yn ogystal â'r cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol hyn, fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog pa ymgysylltiad yr oedd wedi'i gael â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ers iddo ymgymryd â'i rôl ym mis Awst 2024, o ystyried ei gyfrifoldeb gweinidogol penodol dros gydlynu materion polisi cyfiawnder. Dywedodd wrthym, er nad oedd wedi cyfarfod â’r Arglwydd Ganghellor a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder eto, fod cyfarfod wedi’i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2025 i drafod meysydd cytundeb y gallant eu canfod. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 11 Mehefin 2025.

**177.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol wrthym hefyd am ymgysylltiad rheolaidd rhwng Gweinidogion eraill Llywodraeth Cymru, yn fwyaf nodedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip, Jane Hutt AS, a'r Cwnsler Cyffredinol.

## Tribiwnlysoedd Cymru

**178.** Ers i Gomisiwn y Gyfraith gyhoeddi ei adroddiad ar dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2021, rydym wedi bod yn disgwyl am gyflwyniad Bil i ddiwygio Tribiwnlysoedd Cymru. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn ar gyfer ymgynghori arno yn nodi ei chynlluniau ar gyfer diwygio Tribiwnlysoedd Cymru. Mae hyn yn cynnwys creu

Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru a Thribiwnlys Apêl i Gymru, y bydd y naill a’r llall wedi'u trefnu'n siambrau yn seiliedig ar awdurdodaeth. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Hydref 2023, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Ionawr 2024.

**179.** Ymrwymodd y cyn Brif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, a’r cyn Gwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, i gyflwyno deddfwriaeth yn nhymor y Senedd hon i gyflwyno'r diwygiadau hyn.

**180.** Fodd bynnag, yn natganiad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn olaf tymor y Senedd, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol mai dim ond ar ffurf drafft y byddai'r Bil yn cael ei gyhoeddi cyn yr etholiad ac y byddai Llywodraeth nesaf Cymru yn gallu cyflwyno deddfwriaeth i'r Seithfed Senedd sy'n "barod i fynd".

**181.** Cefnogwyd yr angen hwn am ddiwygio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru pan roddodd dystiolaeth i'n Pwyllgor ym mis Hydref 2024. Dywedodd wrthym y byddai’r diwygiadau arfaethedig yn rhoi llawer mwy o gydlyniant i’r Tribiwnlysoedd a’i bod yn bwysig eu bod yn cael eu datblygu ar gyfer y Tribiwnlysoedd eu hunain ac ar gyfer defnyddwyr y Tribiwnlys.

**182.** Dywedodd y Llywydd wrthym hefyd nad oedd gan Dribiwnlysoedd Cymru yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i sicrhau bod achosion yn cael eu gwaredu'n gyflym, yn effeithlon ac yn gyfiawn, gan bwyntio at orwariant yn y ddwy flynedd ariannol flaenorol. Dywedodd wrthym ei fod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch cyllidebu a gwariant, ac fe groesawon ni'r dyraniad cynyddol a gytunwyd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 i Dribiwnlysoedd Cymru.

## CEF Y Parc

**183.** Ym mis Mai 2024, fe wnaethom ystyried pryderon a godwyd gan aelod o’n Pwyllgor, Adam Price AS, ynghylch y cynnydd yn nifer y marwolaethau yng Ngharchar EF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc (Carchar y Parc). Cytunwyd i fonitro'r sefyllfa yn y carchar yn fanwl, ac wedi hynny fe wnaethom ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ’r Cyffredin, Y Gwir Anrhydeddus Stephen Grab AS, i fynegi ein pryderon dybryd ynghylch y sefyllfa. Fe wnaethom hefyd nodi'r ffaith bod carchardai a rheoli troseddwyr yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Ar ôl ystyried sut y gallem ystyried y sefyllfa yng Ngharchar y Parc ymhellach yn fanylach, cytunwyd y dylid cysylltu â Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth Ei Fawrhydi i ofyn a allai’r Pwyllgor ymweld â'r carchar i weld drosom ein hunain y sefyllfa sy'n wynebu carcharorion a staff yn y carchar.

**184.** Ym mis Rhagfyr 2024, ymwelsom â'r carchar, a oedd yn cynnwys taith o amgylch llawer o'r cyfleusterau a'r ardaloedd preswyl yn y carchar, yn ogystal â thrafodaeth fanwl â rheolwyr y carchar am y digwyddiadau ar ddechrau 2024 a'r camau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'n pryderon sylweddol. Ar ddiwedd yr ymweliad hwn, cytunwyd i ddychwelyd i'r carchar tua chwe mis yn ddiweddarach i weld pa gynnydd a wnaed.

**185.** Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi adroddiad ar arolygiad heb rybudd o Garchar y Parc ym mis Ionawr 2025. Nododd yr adroddiad ddirywiad difrifol mewn safonau ers yr arolygiad diwethaf yn 2022, gyda gostyngiad ym mhob un o'r pedwar canlyniad carchar iach a'r tri phryder â blaenoriaeth o arolygiad 2022 yn parhau heb eu datrys. Nododd Prif Arolygydd y Carchardai, ers ennill y contract i redeg y carchar, fod G4S wedi methu â chynnal y safonau uchel yr oedd Carchar y Parc yn enwog amdanynt.

**186.** O ganlyniad i'r adroddiad arolygu hwn, a'n hymrwymiad blaenorol i ddychwelyd i'r carchar, fe wnaethom ymweld eto ym mis Mehefin 2025, ochr yn ochr â rhai o aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Rhoddodd hyn gyfle inni ymweld â'r prif flociau llety (A a B), yn ogystal â chlywed diweddariad pellach gan reolwyr y carchar am y cynnydd a wnaed i wella canlyniadau yn y carchar. Fel rhan o'r ymweliad hwn, fe wnaethom hefyd siarad â chynrychiolwyr o'r staff yng Ngharchar EF Y Parc.

## Casgliadau

**187.** Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfarfod i gydlynu ar faterion cyfiawnder, mae'n destun gofid na fydd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn cael eu cyhoeddi mwyach, gan osod cyfyngiadau ar graffu ac atebolrwydd.

**188.** Mae atebolrwydd gwaith Llywodraeth Cymru ar faterion cyfiawnder hefyd wedi'i gyfyngu ymhellach gan y penderfyniad i beidio â chyhoeddi adroddiad cynnydd pellach ar raglen waith Darparu Cyfiawnder i Gymru.

**189.** O ystyried y cyfleoedd cyfyngedig sydd eisoes ar gael i'n Pwyllgor ac i Aelodau eraill y Senedd graffu ar Lywodraeth Cymru ar faterion cyfiawnder, mae'n siomedig na fydd Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ffurfiol arall ar ei rhaglen waith yn ystod y Chweched Senedd.

**190.** Nodwn fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cyfarfod â'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar 11 Mehefin 2025 ac edrychwn ymlaen at glywed mwy gan y Dirprwy Brif Weinidog am unrhyw gynnydd y mae Llywodraeth

Cymru yn ei wneud ar faterion sy’n ymwneud â chyfiawnder mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU.

**191.** Rydym yn croesawu'r dull cydweithredol rhwng Gweinidogion eraill Llywodraeth Cymru y soniodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol wrthym amdano ac yn gobeithio y bydd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i bobl yng Nghymru sy'n ceisio mynediad at gyfiawnder.

**192.** Rydym yn siomedig ynghylch yr oedi wrth gyflwyno Bil sy'n ymwneud â Thribiwnlysoedd Cymru. Mae sylwadau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn ailadrodd pam y mae angen y Bil hwn ac rydym yn credu y dylid bod wedi rhoi mwy o flaenoriaeth iddo yn rhaglen ddeddfwriaethol y flwyddyn olaf o ystyried y manteision y gallai eu cyflwyno i ddinasyddion ledled Cymru.

**193.** Yn gyffredinol, gan ystyried yr holl faterion hyn, rydym yn siomedig ei bod yn ymddangos i ni fel pe bai Llywodraeth Cymru wedi dadflaenoriaethu’r gwaith ar faterion cyfiawnder dros y 12 mis diwethaf.

**194.** Rydym yn ddiolchgar o fod wedi cael y cyfle i ymweld â CEF Y Parc a thrafod ein pryderon gyda’r Cyfarwyddwr a’i staff. Byddwn yn parhau i fonitro’r sefyllfa yn y Parc ac ymgysylltu â’r Weinidogaeth Gyfiawnder yn ôl yr angen.

# Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o’r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we’r Pwyllgor.

| Dyddiad | Diben | Enw a Sefydliad |
|---|---|---|
| **30 Medi 2024** | **Sesiwn dystiolaeth gyda’r Swyddfa ar gyfer y Farchnad Fewnol** | **Tim Render,** Swyddfa ar gyfer y Farchnad Fewnol<br>**James Waugh,** Swyddfa ar gyfer y Farchnad Fewnol |
| **14 Hydref 2024** | **Sesiwn dystiolaeth gyda Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** | **Syr Gary Hickinbottom,** Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru<br>**Rhian Davies-Rees,** Llywodraeth Cymru |
| **21 Hydref 2024** | **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig): Sesiwn Dystiolaeth** | **Huw Irranca-Davies AS,** Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>**Clare Fernandes,** Dirprwy Gyfarwyddwr, Dŵr a Llifogydd, Llywodraeth Cymru<br>**James Mugleston,** Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru |
| **21 Hydref 2024** | **Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Craffu Cyfnod 1** | **Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS,** Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg<br>**Bethan Webb,** Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru<br>**Iwan Roberts,** Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru |
| **4 Tachwedd 2024** | **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a** | **Rebecca Evans AS,** Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio |

| Dyddiad | Diben | Enw a Sefydliad |
|---|---|---|
| | **Mesureg: Sesiwn dystiolaeth** | **Claire McDonald,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Economaidd, Llywodraeth Cymru<br>**Jennifer Pride,**<br>Pennaeth Cyflenwi Ynni, Llywodraeth Cymru<br>**Scott Tyler,**<br>Pennaeth Rhaglen Ddeddfwriaeth y DU, Llywodraeth Cymru |
| **4 Tachwedd 2024** | **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Great British Energy: Sesiwn dystiolaeth** | **Rebecca Evans AS,**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio<br>**Claire McDonald,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Economaidd, Llywodraeth Cymru<br>**Jennifer Pride,**<br>Pennaeth Cyflenwi Ynni, Llywodraeth Cymru<br>**Scott Tyler,**<br>Pennaeth Rhaglen Ddeddfwriaeth y DU, Llywodraeth Cymru |
| **4 Tachwedd 2024** | **Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Craffu Cyfnod 1** | **Julie James AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni<br>**Dylan Hughes,**<br>Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru<br>**Claire Fife,**<br>Cynghorydd Polisi i’r Cwnsler Cyffredinol a Phennaeth Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru |
| **18 Tachwedd 2024** | **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Rhentwyr: Sesiwn dystiolaeth** | **Jayne Bryant AS,**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol<br>**Gareth Baglow,**<br>Uwch Reolwr Polisi Tai y Sector Preifat, Llywodraeth Cymru<br>**Sarah Rhodes,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Tai, Llywodraeth Cymru |
| **18 Tachwedd 2024** | **Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau)** | **Saul Nassé,**<br>Prif Weithredwr a Cheidwad yr Archifau Cenedlaethol, ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin |

| Dyddiad | Diben | Enw a Sefydliad |
|---|---|---|
| | **(Cymru): Craffu Cyfnod 1** | **John Sheridan,**<br>Cyfarwyddwr Digidol, Yr Archifau Cenedlaethol<br>**Malcolm Todd,**<br>Pennaeth Polisi, Yr Archifau Cenedlaethol |
| **9 Rhagfyr 2024** | **Sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni** | **Huw Irranca-Davies AS,**<br>Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>**Julie James AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni<br>**Charlie Thomas,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru<br>**James Gerard,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru<br>**Sophie Brighouse,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, y Cyfansoddiad a Thribiwnlysoedd Cymru, Llywodraeth Cymru |
| **6 Ionawr 2025** | **Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Craffu Cyfnod 1** | **Dr Ruth Fox,**<br>Cymdeithas Hansard<br>**Dr Adam Tucker,**<br>Prifysgol Lerpwl |
| **13 Ionawr 2025** | **Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Craffu Cyfnod 1** | **Julie James AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni<br>Dylan Hughes,<br>Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru<br>**Claire Fife,**<br>Cynghorydd Polisi i'r Cwnsler Cyffredinol a Phennaeth Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru |
| **20 Ionawr 2025** | **Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Craffu Cyfnod 1** | **Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS,**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg<br>**Anna Adams,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, y Strategaeth Drethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru |

| Dyddiad | Diben | Enw a Sefydliad |
|---|---|---|
| | | **David Greenhough,**<br>Pennaeth yr Ardoll Ymwelwyr, y Strategaeth Drethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru<br>**John O'Sullivan,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru<br>**Emma Anderson,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru |
| **3 Chwefror 2025** | **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad): Sesiwn dystiolaeth** | **Rebecca Evans AS,**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio<br>**Liz Winwood,**<br>Pennaeth Rheoleiddio'r Maes Digidol, Llywodraeth Cymru<br>**Glyn Jones,**<br>Prif Swyddog Digidol, Llywodraeth Cymru<br>**Scott Tyler,**<br>Pennaeth Rhaglen Ddeddfwriaeth y DU, Llywodraeth Cymru |
| **10 Chwefror 2025** | **Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru): Craffu Cyfnod 1** | **Huw Irranca-Davies AS,**<br>Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>**Chris Jones,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Etifeddiaeth Mwyngloddio a Diogelwch Cronfeydd Dŵr, Llywodraeth Cymru<br>**Rebecca Ryan,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru |
| **31 Mawrth 2025** | **Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Trafodion Cyfnod 2** | **Julie James AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni<br>**Dylan Hughes,**<br>Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru<br>**Claire Fife,**<br>Cynghorydd Polisi i'r Cwnsler Cyffredinol a Phennaeth Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru |
| **12 Mai 2025** | **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar** | **Lynne Neagle AS,**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg |

| Dyddiad | Diben | Enw a Sefydliad |
|---|---|---|
| | **y Bil Lles Plant ac Ysgolion** | **Dawn Bowden AS,**<br>Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol<br>**Nicola Edwards,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Tegwch mewn Addysg, Llywodraeth Cymru<br>**Alistair Davey,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru |
| **12 Mai 2025** | **Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru): Craffu Cyfnod 1** | **Ken Skates AS,**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru<br>**Alex Walters,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Trafnidiaeth Gyhoeddus ac Integredig<br>**Hannah Dudley,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru<br>**Catrin Dellar,**<br>Pennaeth Diwygio Bysiau, Llywodraeth Cymru |
| **9 Mehefin 2025** | **Sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni** | **Huw Irranca-Davies AS,**<br>Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>**Julie James AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni<br>**Piers Bisson,**<br>Cyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru<br>**James Gerard,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru<br>**Charlie Thomas,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Ddeddfwriaeth, Llywodraeth Cymru |
| **23 Mehefin 2025** | **Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru): Craffu Cyfnod 1** | **Jayne Bryant AS,**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai<br>**Sarah Rhodes,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Tai, Llywodraeth Leol |

| Dyddiad | Diben | Enw a Sefydliad |
|---|---|---|
| | | **Hannah Fisher,**<br>Pennaeth Deddfwriaeth Atal Digartrefedd, Llywodraeth Cymru<br>**Julie Stokes,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Leol |
| **30 Mehefin 2025** | **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth): Craffu Cyfnod 1** | **Huw Irranca-Davies AS,**<br>Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>**Naomi Matthiessen,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru<br>**Alice Teague,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth, Llywodraeth Cymru<br>**Bernadette Payne,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru<br>**Joel Scoberg-Evans,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru |